**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR**
**a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fawrth 2015**

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dewi Rattray (Cadeirydd); Rowland Jones; Caredig Jones; John Davies; Ann Tudor; Ada Evans; Meirion Davies; Meic Francis; Dylan Edwards a Richard Davies.**

Cychwynyd y cyfarfod am 7.00 o'r gloch a chroesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd. Llongyfarchodd y Cyng.Richard Davies ar ei ymddeoliad a dymunwyd yn dda iddo yn dyfodol.

**15/826**
Y pwrpas i ddod awr ynghynt oedd i drafod y fenter i fynd ar y safle Wefan. Yr oedd y Cyng.Meic Francis yn garedig iawn wedi paratoi ar gyfer y gwaith. Cafwyd trafodaeth brwd iawn a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith caled.. Cytunwyd gan yr aelodau iddo anfon y manylion ymlaen i Dechnoleg Taliesin.

**15/827**
Darllenwyd y cofnodion a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dylan Edwards.

**15/828**
**MATERION YN CODI**
1. Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn dwy gais ar gyfer swydd y Clerc. Penodwyd Mrs. Angharad Carr a phasiwyd iddi gychwyn yn Mis Mai. Cynigiwyd gan y Cyng. Richard Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies. Yr oedd yr aelodau i gyd yn gytun.
2. Pasiwyd i anfon llythyr i'r Plismon Bro i ofyn iddo anfon llythyr ynghlyn a'r parcio yn y Gymuned fel yr oedd wedi addo.

**15/829**
**LLYTHYRON**
1. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddiwrth Mr.Neville Jones sef Trysorydd Pwyllgor y Neuadd Gymuned i ddiolch am y rhodd ariannol o £200 a dderbyniodd ar gyfer cael rhyngrwyd yn y Ganolfan.
2. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddiwrth Mr.Roy James ar ran y papur bro "Y Ddolen" hefyd yn diolch am y rhodd o £100 tuag at y costau.
3. Derbyniwyd llythyr a thaflenni oddiwrth swyddog Llety a Chymorth CANTREF sydd yn darparu Gwasanaeth Cefnogi i Bobl Hyn yn y Gymuned ( 50+ ). Pasiwyd i'w basio ymlaen i Glwb yr Henoed ac hefyd i roi gwybod i Ann Harries ( swyddog )
4. Llythyr a thaflenni oddiwrth Heddlu Dyfed Powys yn gwahodd aelodau i fynychu cyflwyniad byr ar y cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned sy'n cael ei lansio ledled Ceredigion.
5. Llythyr oddiwrth y Clerc Cyngor Cyngor Cymuned Trawscoed yn gwahodd aelodau i bwyllgor ynghlyn a'r Cyngor Sir sydd i'w gynnal yn Neuadd Lisburne Llanafan ar Nos Lun y 23ain o Fawrth am 7.30y.h. Bydd y Cynghorwyr canlynol yn mynychi y cyfarfod sef:- Ann Tudor, John Davies, Dewi Rattray a Dylan Edwards.

**15/830**
**ARIANNOL**

1. Infois oddiwrth y Clerc o £108.00 sef tal am wasanaeth i'r Cyngor Cymuned. Cynigiwyd i'w thalu gan y Cyng.Richard Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dylan Edwards.
2. Infois oddiwrth Stainmaster o £90.00 am lanhau llochesi bysiau. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis.
3. P.A.Y.E. sydd yn ddyledus mis Ebrill. Y swm o £81.00. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Caredig Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dylan Edwards.
4. Infois oddiwrth y Neuadd Gymuned am hurio'r neuadd sef y swm o £30.00. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng. John Davies.

**15/831**
**CYNLLUNIO**

1. Cais A150034 The Vicarage Llanilar.

   Newidiadau i fynediad a ffin y wal. Cynigiwyd i'w gefnogi ond nid yn unfrydol gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies. Gwnaeth y Cyng.Rowland Jones ddatgan diddordeb ac ni wnaeth gymeryd rhan yn y drafodaeth.

**15/832**
**UNRHYW FATER ARALL**

1. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Ann Tudor am y "defibrillators" sydd wedi cael ei rhoi mewn pentrefi. A oes modd i'r cyhoedd cael gwersi CPR i fedru ei defnyddio pan mai angen ar frys. Pasiwyd i roi hysbyseb i fynd gyda golwg i drefnu gwersi gyda ceisiadau yn ol i'r clerc.
2. Hefyd dywedodd y Cyng.Ann Tudor fod twll mawr yn y ffordd wrth ymyl Cefnllwynpiod cyn dod i'r mynediad i'r fferm o ochr Llanilar. Pasiwyd i ysgrifennu i'r Cyngor Sir
3. Dywedodd y Cyng. Meirion Davies ei fod wedi cael cwynion am fod pibell ddwr wedi cau ac yn achosi trwbl ar y ffordd rhwng Troedyrhiw a Cefnllwynpiod. Pasiwyd eto i gwyno i'r Cyngor Sir.
4. Dywedodd y Cyng. Rowland Jones i ysgrifennu i'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ail osod yr arwydd "Dim peli caled" ar y gwyrdd yn ystad Cwm Aur gan ei fod wedi dymchwel.

Gorffenwyd y cyfarfod am 9.30 y.h